Adran Cymraeg i Oedolion Grŵp Llandrillo Menai

Cystadleuaeth dylunio logo ar fagiau eco

Penderfynodd Adran Cymraeg i Oedolion Grŵp Llandrillo Menai ofyn i ddisgyblion cynradd ardal Dwyfor a Meirionnydd ddylunio logo i ymddangos ar fagiau eco newydd yr adran. Daeth nifer dda iawn o geisiadau i law ac roedd y safon yn uchel. Ar ôl llawer o drafod daethJane Bailey Williams a Carwyn Pugh o Adran Gelf Coleg Meirion-Dwyfor i'r casgliad mai logo Lucy Hughes, blwyddyn chwech o Ysgol Abererch oedd yn fuddugol. Derbyniodd Lucy ei gwobr, sef tocyn teulu i Barc Antur Gelligyffwrdd ac mae'r ysgol hefyd wedi derbyn siec o £100.

Mi fydd y bagiau, sy'n rhad ac am ddim ar gael mewn llyfrgelloedd lleol yn ystod misoedd yr haf.